

Adroddiad y Cadeirydd 2018-19

Mawrth 2019

Fis yn unig ers camu, dros dro, i rôl y cadeirydd, un o'm tasgau cyntaf yw cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn. Yn y lle cyntaf, hoffwn ddymuno gwellhad buan i Heini Gruffudd.

Fe fu'n flwyddyn arall o lwyddiannau a heriau amrywiol ym mywyd Menter Iaith Abertawe a Thŷ Tawe, a charwn ddiolch i'r Pennaeth Dean Baker a'i staff am eu gwaith yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Staffio

Rydym wedi ffarwelio â sawl aelod o staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gadawodd Eleri Griffiths, ein Swyddog Datblygu, ym mis Mehefin. Bu'n gyfrifol am brosiect Ap Cwtsh ac yn dilyn ei hymadawiad, trosglwyddwyd y prosiect i ofal Nia Parr-Williams am gyfnod, cyn penodi Richard Gregory. Mae yntau bellach wedi ein gadael hefyd.

Yn dilyn cyfnod o salwch, gadawodd Emyr Wyn Williams ei swydd yn y siop ym mis Tachwedd ac ar ôl deufis o ddibynnu ar wirfoddolwyr, braf oedd croesawu Bethan Davies i'w swydd ym mis Ionawr.

Fe adawodd Nia Parr-Williams ei swydd hithau hefyd ym mis Medi, ar ôl ei chyfnod o gyflenwi tra bod Eleri ar brosiect Ap Cwtsh.

Llwyddodd y Fenter i ennill grant oddi wrth Loteri'r Cod Post ar gyfer prosiect newydd o'r enw Hen Blant Bach. Er ein bod wedi gobeithio dechrau ar y gwaith ym mis Medi, roedd oedi wrth dderbyn arian ar gyfer y swydd yn golygu nad oedd modd i Rhian Atherton ddod atom tan fis Ionawr.

Mae Llinos Haf, Swyddog Busnes sydd wedi'i lleoli yn Nhŷ Tawe, ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd, a'i gwaith hithau bellach yn nwylo Mentrau Iaith Bro Dinefwr a Gorllewin Sir Gâr.

Pob dymuniad da iddynt oll.

Byddwn yn mynd ati i benodi'r Swyddog Datblygu newydd yr wythnos hon yn dilyn y broses gyfweld.

Cyfarwyddwyr

Braf oedd croesawu nifer o gyfarwyddwyr ac aelodau newydd o'n Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn, er i ni gollu ambell un hefyd. Wrth i ni ffarwelio â Huw Dylan Owen, Curon Davies ac Elgan Davies-Jones a diolch yn fawr iddynt am eu cyfraniadau, braf oedd cael croesawu Jane Altham-Watkins, Hannah Sams, Saran Thomas, Ann Williams a Rhian Williams fel cyfarwyddwyr, a Neil Rowlands a Rebecca Martin, Swyddog Materion Cymraeg Prifysgol

Abertawe, fel aelodau'r pwyllgor rheoli. Mae'r trawstoriad sydd gennym bellach yn adlewyrchiad da o fywyd Cymraeg Abertawe, ac mae'n siŵr y bydd arbenigedd a brwdfrydedd pob un ohonynt yn hwyluso ein gwaith wrth i ni gyfrannu at y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Prosiectau

Un o brif lwyddiannau'r Fenter eleni oedd creu a lansio Ap Cwtsh, prosiect oedd yng ngofal Eleri Griffiths ac yna Richard Gregory. Ond yn sgil newidiadau i'r staff, fe gollodd y prosiect rywffaint o fomentwm.

Ymhlith yr uchafbwyntiau eleni o ran gweithgareddau'r Fenter roedd Ras yr Iaith, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Shwmae Su'mae, Gŵyl Croeso'r Cyngor a PlanTawe. Yn ogystal, fe fu ymestyn ar gynlluniau chwarae yng ngorllewin y sir, yn Ysgol Pontybrenin.

Colli'r Gronfa Newid

Er i ni gollu'r Gronfa Newid eleni, fe gafodd lai o effaith na'r disgwyl ar ein sefyllfa ariannol. Rydym wedi llwyddo i haneru ein dyledion a lleihau ein costau, sydd wedi lleddfu rywffaint ar ein pryderon.

Targedau'r Llywodraeth

Cynnydd digon cymysg a gafwyd eleni o ran targedau'r Llywodraeth. Tra bod meysydd y Siop a Phlant a Theuluoedd yn cyrraedd y safon ar hyn o bryd, fe fu rhywfaint o dan-berfformiad o safbwynt rôl y Swyddog Datblygu am y rhesymau a nodwyd eisoes. Serch hynny, roedd Eleri Griffiths a Richard Gregory wedi llwyddo i wneud gwaith da, a mawr obeithio y bydd hynny'n parhau ar ôl penodi'r Swyddog Datblygu newydd.

Rydym bellach wedi cyrraedd blwyddyn ola'r cylch presennol o dargedau, ac mae trafodaethau ar y gweill erbyn hyn ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Cylch Gorchwyl a gweithdy

Mae'r gwaith o roi trefn ar y Cylch Gorchwyl newydd yn parhau yn dilyn gweithdy llwyddiannus ym mis Tachwedd.

Y siop

Mae Bethan Davies yn Swyddog Datblygu Canolfan a Chymuned ers mis Ionawr. Mewn amser byr, mae hi wedi gwednewid yr olwg sydd ar y siop ond erys rhai heriau o hyd.

Cafwyd Nadolig da ar y cyfan, ac mae perfformiad y siop yn parhau i wella. Mae mwy o wirfoddolwyr yn helpu yn y siop erbyn hyn, sy'n golygu bod mwy o gymorth ar gael pe bai angen i Bethan fynd allan am gyfnodau.

Bu cryn arbrofi wrth werthu bwyd yn siop, gyda rhai nwyddau'n gwerthu'n well na'i gilydd. Mae'r broses o ymchwilio i drwydded alcohol ar gyfer y siop yn parhau.

Noddodd Menter Iaith Abertawe a Siop Tŷ Tawe Eisteddfod Ryng-golegol Abertawe ddechrau mis Mawrth, gyda chryn amlygrwydd i'n brandiau yn y deunydd marchnata ar gyfer y digwyddiad.

Mae'r siop yn parhau ar agor yn ystod ambell ddigwyddiad yn Nhŷ Tawe a'r teimlad yn gyffredinol yw fod gwerth gwneud hynny o bryd i'w gilydd er mwyn cynyddu incwm y siop.

Yn groes i'r disgwyl, efallai, dydy'r gwaith ar y Kingsway ddim wedi cael effaith sylweddol ar nifer y bobl sy'n ymweld â'r siop.

Diolch unwaith eto i staff a chyfarwyddwyr Menter Iaith Abertawe am eu brwdfrydedd a'u gwaith diflino dros y flwyddyn ddiwethaf, gan edrych ymlaen at yr hyn a ddaw dros y flwyddyn nesaf.

Ymlaen!

Alun Rhys Chivers (cadeirydd dros dro)